Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Adolygiad o addysg perthnasoedd iach

Mehefin 2017



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Darpariaeth** | **9** |
| Cynnwys a chyflwyno addysg perthnasoedd iach | 9 |
| Partneriaethau ag asiantaethau arbenigol | 13 |
| Bodloni anghenion grwpiau sy'n agored i niwed | 15 |
| Darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol | 17 |
| Ymglymiad teuluoedd a'r gymuned | 18 |
| **Arweinyddiaeth** | **19** |
| Arweinyddiaeth mewn ysgolion | 19 |
| Hyfforddiant staff | 22 |
| Effaith arweiniad Llywodraeth Cymru | 22 |
| **Deilliannau disgyblion** | **25** |
| **Atodiad 1:  Sail y dystiolaeth** | **27** |
| **Atodiad 2:  Geirfa** | **29** |
| **Cyfeiriadau** | **31** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2016-2017. Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid, llywodraethwyr, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i'r rheiny sy'n gweithio gydag ysgolion ffydd trwy awdurdodau esgobaethol.

Mae'r adroddiad yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n nodi strategaethau i gefnogi ysgolion i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae cyfres o astudiaethau achos arfer orau yn dangos y modd y mae ysgolion yn cefnogi disgyblion yn llwyddiannus i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach.

Mae wedi ei fwriadu i lywio gweithrediad parhaus Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) a chyfrannu at weithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Athro Graham Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015).

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth a restrir yn Atodiad 1.

## Cefndir

Addysg perthnasoedd iach yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth o brofiadau dysgu a chymorth y mae ysgolion yn eu darparu ar gyfer disgyblion i ddatblygu perthnasoedd personol diogel a pharchus. Mae hyn yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad yn eu perthnasoedd personol, a sut i adnabod ymddygiad amhriodol.

Mae'r '*Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru'* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a) yn amlinellu:

"Mae cydberthnasau llwyddiannus yn gofyn am sgiliau rhyngbersonol cymwys a pharodrwydd i werthfawrogi eraill a pharchu gwahaniaeth. Mae cydberthnasau da yn deillio o ofal a chefnogaeth, cyfathrebu a pharodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb. Mae angen i'r dysgwyr allu ffurfio a chynnal cyfeillgarwch, delio â gwrthdaro, herio stereoteipiau a rhagfarn, ac ymdopi â dylanwad cyfoedion a phobl eraill." (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a, t. 11)

Mae Llywodraeth Cymru, Estyn a chyrff ymchwil addysgol wedi ysgrifennu'n helaeth am y rôl bwysig sydd gan ysgolion mewn helpu disgyblion i ddatblygu perthnasoedd diogel a pharchus. Yn ychwanegol, mae sawl darn o ddeddfwriaeth yn amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol ac ysgolion mewn perthynas â'r mater pwysig hwn.

Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru ‘Gweithredu’r Hawliau’, sef dogfen bolisi a drodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP: UNICEF UK, 1990) yn saith nod craidd ar gyfer plant yng Nghymru. Mae’r nodau hyn yn cynnwys y dylai plant a phobl ifanc gael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu a chael yr iechyd gorau posibl, a rhyddid oddi wrth gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio.

Yn 2007, lluniodd Estyn adroddiad arweiniad ar addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion yng Nghymru. Nododd yr adroddiad amrywiadau eang yn ansawdd yr addysgu. Nododd fod gormod o bwyslais ar ddysgu ffeithiau am ryw a pherthnasoedd i ddisgyblion, ac nad oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau am faterion moesol ac emosiynol. Argymhellodd yr adroddiad y dylai ysgolion:

- ystyried barn disgyblion wrth gynllunio neu ddiwygio rhaglenni addysg rhyw a pherthnasoedd
- defnyddio arbenigwyr fel athrawon addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) neu addysg grefyddol (AGref) i gyflwyno’r agweddau moesol, cymdeithasol ac emosiynol ar addysg rhyw a pherthnasoedd

Yn Rhagfyr 2008, lluniodd Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar gam-drin domestig. Daeth yr adroddiad i’r casgliad nad yw ysgolion yn rhoi dulliau ar waith i addysgu plant am gam-drin domestig yn ddigon cyson. Argymhellodd yr adroddiad fod yn rhaid addysgu pobl ifanc ynglŷn â beth yw perthynas ddiogel ac iach.

Ym Medi 2010, lluniodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar gyfer ysgolion, ‘*Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion’.* Rhoddodd hwn arweiniad ar y modd y dylai ysgolion ddatblygu eu polisi addysg rhyw, cynllunio a chyflwyno eu haddysg rhyw a pherthnasoedd a gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Amlinellodd yr arweiniad y gofynion cyfreithiol ar gyfer addysgu addysg rhyw a pherthnasoedd fel a ganlyn:

- Rhaid i ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw fel y mae wedi’i chynnwys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, er enghraifft yn y gorchymyn pwnc gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad i ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw fel rhan o’r cwricwlwm sylfaenol. Lle cyrff llywodraethol ysgolion unigol, trwy ymgynghori â rhieni/gofalwyr, yw penderfynu beth yw’r ffordd orau o ymdrin ag addysg rhyw, yn unol ag anghenion dysgwyr a chymeriad ac ethos yr ysgol.
- Mewn ysgolion uwchradd, a lleoliadau addysgol eraill sy’n darparu ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol uwchradd, er enghraifft unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), rhaid i’r cwricwlwm sylfaenol gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg rhyw i’r holl ddisgyblion cofrestredig.
- Rhaid i ysgolion arbennig gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg rhyw i’r holl ddisgyblion cofrestredig y darperir addysg uwchradd iddynt yn yr ysgol.

Yn ei adroddiad*, ‘Adolygiad o waith ataliol mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yng Nghymru i fynd i’r afael â thrais teuluol’* (y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, 2011), canfu’r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg fod llawer o ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig a’r ffaith ei fod yn

annerbyniol, trwy weithgareddau'r cwricwlwm, fel gwersi ABCh. Nododd yr ymchwil asiantaethau arbenigol a oedd yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer ysgolion i addysgu disgyblion am gam-drin domestig. Y ddwy asiantaeth arbenigol â'r cyrhaeddiad mwyaf oedd Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a rhaglen Sbectrwm Hafan Cymru. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod gan asiantaethau arbenigol rôl bwysig mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig a chyfeirio disgyblion at ffynonellau cymorth a chefnogaeth. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad fod y ddarpariaeth mewn ysgolion ar gyfer addysgu am gam-drin domestig yn rhy aml yn cynnwys diwrnod thema, gwers unigol neu gyfres fach o sesiynau. O ganlyniad, nid yw ysgolion yn cyflwyno negeseuon hanfodol yn ddigon aml i sicrhau bod disgyblion yn eu deall yn llawn.

Yn 2014, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i Hafan Cymru i ymestyn cwmpas Rhaglen Sbectrwm i gynorthwyo pob ysgol yng Nghymru i gyflwyno addysg perthnasoedd iach.

Dywedodd adolygiad Estyn 'Gweithredu ar fwlio' (Estyn, 2014), mewn ysgolion lle ceir ethos cryf sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, fod plant yn deall bod ganddynt hawl i fod yn ddiogel, ac y gallant arfer hynny. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad fod lleiafrif o ysgolion yn bryderus ynghylch amlygu problemau amrywiaeth. Roeddent yn mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, yn hytrach na'u cyflwyno yn y cwricwlwm yn rhagweithiol.

Yn Ebrill 2015, daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gyfreithiol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015). Hon yw'r Ddeddf gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig. Mae darpariaethau'r Ddeddf wedi eu bwriadu i sicrhau bod ffocws strategol ar draws y sector cyhoeddus ar atal y problemau hyn, amddiffyn dioddefwyr a chynorthwyo'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan broblemau o'r fath.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar sut maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn eu swyddogaethau addysgol, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerir mewn ysgolion i hyrwyddo dibenion y Ddeddf. Yn ystod y broses ymgynghori ar gyfer Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, cafwyd cefnogaeth sylweddol i wneud gwersi ar berthnasoedd iach yn orfodol. Ni chynhwyswyd hyn yn y Ddeddf o ganlyniad i'r gwaith parhaus i ddiwygio'r cwricwlwm, a fyddai'n cyflwyno gofynion statudol newydd ar gyfer y cwricwlwm.

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad yn amlinellu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Llywodraeth Cymru, 2016a). Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff sy'n gweithio mewn ysgolion gwblhau hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cynnig ateb effeithiol i'r rheiny sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Lluniwyd canllaw arfer dda gan Lywodraeth Cymru a Cymorth i Fenywod Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015) i gefnogi rhoi'r Ddeddf ar waith. Mae'r canllaw yn rhoi cyngor i ysgolion ar sut i ddatblygu, ymgorffori a chyflwyno dull addysg gyfan yn llwyddiannus i hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhywedd ac i herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn 2016, lluniwyd canllaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethwyr ysgolion hefyd i roi gwybod iddynt am y problemau sy’n amgylchynu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a’r camau y gallant eu cymryd i wneud eu hysgolion yn fwy diogel (Llywodraeth Cymru, 2016b). Yn 2016, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda’r Comisiynydd Plant, NSPCC, Prifysgol Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cymru a phobl ifanc i lunio ‘AGENDA: Canllaw pobl ifanc ar wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfrif’. Mae’r adnodd hwn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i ysgolion eu defnyddio gyda phobl ifanc.

Cryfhawyd trefniadau i ysgolion gyfeirio plant at gymorth ac arweiniad priodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy’r strategaeth cwnsela mewn ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008b). Mae’r strategaeth hon, a gyhoeddwyd yn 2008, yn amlinellu awydd y llywodraeth i ddatblygu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru sy’n ddiogel, yn hygyrch ac o safon uchel. Ymateb oedd y strategaeth i Adroddiad Ymchwiliad Clywch gan Gomisiynydd Plant Cymru (2004). Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed a disgyblion ym Mlwyddyn 6 ysgolion cynradd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2013).

# Prif ganfyddiadau

1 Mae cynnwys addysg perthnasoedd iach, a'r ffordd y caiff ei chyflwyno, yn amrywio gormod mewn ysgolion ledled Cymru. At ei gilydd, nid yw ysgolion yn neilltuo digon o amser na phwysigrwydd i'r agwedd hon ar addysg bersonol a chymdeithasol.

2 Mae'r ysgolion sydd fwyaf effeithiol o ran cyflwyno addysg perthnasoedd iach yn creu ethos ble mae disgyblion yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac yn parchu hawliau pobl eraill. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn meithrin gwydnwch ac yn magu hunan-barch a hyder.

3 Mae'r holl ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt fel rhan o'r adroddiad hwn yn addysgu disgyblion am berthnasoedd digidol iach trwy addysg e-ddiogelwch. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sy'n briodol i oedran o faterion pwysig fel bwlio seiber, paratoi i bwrpas rhyw a gwarchod gwybodaeth bersonol ar-lein.

4 Mae bron pob ysgol yn addysgu disgyblion am gydraddoldeb o ran rhywedd. Mae pob ysgol uwchradd, a llawer o ysgolion cynradd, yn addysgu disgyblion am gam-drin domestig. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn addysgu disgyblion am fathau o drais yn erbyn menywod fel priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod a thrais ar sail anrhydedd. Mae gormod o ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd ble nad yw cymunedau'n amrywiol, nad ydynt yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i broblemau trais yn erbyn menywod. Nid ydynt yn paratoi disgyblion yn ddigon da i fyw mewn cymdeithas amrywiol.

5 Mae tystiolaeth o arolygiadau Estyn yn dangos bod bron yr holl ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd yn cael addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh). Mae ysgolion cynradd yn ymestyn y ddarpariaeth hon i Flwyddyn 5 yn gynyddol i adlewyrchu'r ffaith fod rhai plant yn cyrraedd cyfnod y glasoed yn iau. Mewn llawer o ysgolion cynradd, caiff ARhPh ei chyflwyno gan weithwyr iechyd proffesiynol hyfforddedig a phrofiadol. Mae lleiafrif o ysgolion yn osgoi agweddau ar addysg rhyw a pherthnasoedd, heblaw cyfnod y glasoed. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn gadael i weithwyr iechyd proffesiynol y GIG addysgu disgyblion yn gyfan gwbl ynglŷn â hylendid personol a chyfnod y glasoed mewn sesiynau unigol, ac nid yw hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion godi materion personol gydag athrawon y maent yn eu hadnabod.

6 Mewn ysgolion uwchradd, mae amrywiad eang o ran cynllunio a darpariaeth ar gyfer addysg perthnasoedd iach. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae tiwtoriaid dosbarth yn addysgu'r pwnc hwn mewn sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) fel rhan o'r system diwtorial. Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae addysg perthnasoedd iach yn rhan o'r cwricwlwm ABCh yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn cynnal gwersi ABCh ar wahân yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgolion hyn yn hyrwyddo addysg perthnasoedd iach yn ystod diwrnodau thema, gwasanaethau ac fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Nid yw ysgolion sy'n cyflwyno addysg perthnasoedd iach mewn gwasanaethau unigol, diwrnodau thema neu gyfresi bach o wersi mewn pynciau ar wahân yn rhoi digon o gyfle i ddisgyblion archwilio agweddau cymdeithasol ac emosiynol pwysig ar berthnasoedd.

7 Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol i gyflwyno agweddau pwysig ar addysg perthnasoedd iach. Mae asiantaethau arbenigol yn darparu ystod eang o gymorth i ysgolion, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer staff, gwersi sy'n briodol i oedran ar gyfer disgyblion, a chyfeirio dioddefwyr at ffynonellau cymorth. Pan fydd ysgolion yn cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol, gyda'i gilydd, maent yn darparu ymdriniaeth gynhwysfawr ag addysg perthnasoedd iach, gan gynnwys gwaith sy'n briodol i oedran ar gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol.

8 Mewn ysgolion sydd â'r arfer orau, mae athrawon yn ychwanegu at fewnbwn gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau arbenigol yn dda i gynllunio gweithgareddau ar gyfer disgyblion i archwilio agweddau pwysig ar berthnasoedd iach ar draws y cwricwlwm.

9 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion drefniadau ar waith i gynorthwyo disgyblion sydd wedi profi cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae llawer o ysgolion yn yr arolwg wedi ffurfio partneriaethau strategol gwerthfawr gydag asiantaethau arbenigol sy'n darparu cymorth a chyngor priodol ar gyfer disgyblion. Mae rhai ysgolion cynradd yn yr arolwg wedi defnyddio cyllid ychwanegol i ymestyn gwasanaethau cwnsela y tu hwnt i Flwyddyn 6 i gynnwys disgyblion ar draws yr ysgol. Mae ystadegau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru (2016c) ar ddarparu gwasanaethau cwnsela ledled Cymru yn dangos bod 11,567 o blant wedi cael eu cwnsela yn 2014-2015. Gwnaed bron i hanner y cyfeiriadau gan staff ysgolion, ac roedd y broblem fwyaf cyffredin yn ymwneud â pherthnasoedd o fewn teuluoedd.

10 Yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg perthnasoedd iach wedi'u datblygu'n ddigonol mewn ysgolion ledled Cymru. Yn y nifer fach iawn o ysgolion ble mae disgyblion yn llysgenhadon cydraddoldeb o ran rhywedd, mae disgyblion yn gweithredu fel hyrwyddwyr perthnasoedd iach, yn darparu cymorth i gyfoedion ac yn gwneud cyfraniad pwysig at waith ataliol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

11 Yn gyffredinol, mae ysgolion mewn cymunedau sy'n ddiwylliannol amrywiol yn meithrin perthnasoedd cryf gyda rhieni ac arweinwyr cymunedol. Mae hyn yn helpu i wella ymgysylltiad rhieni â'r ysgol, yn lleihau tensiynau diwylliannol ac yn hyrwyddo ethos ble caiff amrywiaeth ei pharchu.

12 Mae cefnogaeth gan yr holl ysgolion ac asiantaethau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg i gynnwys addysg perthnasoedd iach fel rhan o'r maes dysgu iechyd a lles yn y diwygiadau i'r cwricwlwm sy'n cael ei gynllunio ar ôl 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015).

13 Mae llawer o asiantaethau arbenigol yn credu na fydd nodau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Deddf TEMCDThRh: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) yn cael eu cyflawni'n llawn heb arweiniad statudol ar gyfer ysgolion, yn amlinellu cwricwlwm craidd ar gyfer addysg perthnasoedd iach y mae gan bob plentyn hawl i'w derbyn.

14 Nid yw'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn ymwybodol o arweiniad a phecynnau canllawiau Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyno addysg perthnasoedd iach a rhoi

dull ysgol gyfan ar waith i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.  Yn gyffredinol, mae gormod o ddogfennau arweiniad ar gyfer ysgolion yn amlinellu agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol, addysg rhyw a pherthnasoedd a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

15 Ychydig iawn o gyrff llywodraethol yn unig sydd wedi gweithredu yn unol â'r arweiniad a amlinellir yng nghanllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethwyr, sef 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol' (Llywodraeth Cymru 2016b).  Ychydig iawn o staff ysgol yn unig sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein lefel 1 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.  Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr ysgol yn ymwybodol o gynnwys a gofynion y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Roi arweiniad Llywodraeth Cymru ar waith i ddarparu dull ysgol gyfan o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Llywodraeth Cymru, 2015)

A2 Sicrhau bod negeseuon allweddol yn ymwneud â pherthnasoedd iach yn cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm a'u hatgyfnerthu'n rheolaidd

A3 Adeiladu ar yr arfer orau a nodir yn yr adroddiad hwn

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A4 Sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn cwblhau'r hyfforddiant a amlinellir yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2016a)

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A5 Gyhoeddi arweiniad ymhellach i sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethol yn ymwybodol o'r cyngor a'r arweiniad y maent yn eu cynnwys

A6 Sicrhau bod y rheiny sy'n gysylltiedig â chynllunio a datblygu'r cwricwlwm ar gyfer y maes dysgu iechyd a lles a phrofiadau yn ymwybodol o'r rôl bwysig sydd gan ysgolion o ran rhoi Deddf TEMCDThRh 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) ar waith, a chynnwys addysg perthnasoedd iach yn eu gwaith

A7 Galluogi staff sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau annibynnol i elwa ar y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2016a)

# Darpariaeth

## Cynnwys a chyflwyno addysg perthnasoedd iach

16 Mae cynnwys a chyflwyno addysg perthnasoedd iach yn amrywio gormod mewn ysgolion ledled Cymru. Mae natur anstatudol y Fframwaith ABCh yn golygu bod gan ysgolion yr hyblygrwydd i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cyflwyno'r elfennau o ABCh a amlinellir yn y fframwaith. At ei gilydd, nid yw ysgolion yn neilltuo digon o amser nac yn rhoi digon o bwysigrwydd i'r pwnc hwn.

17 Mae pob un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn hyrwyddo parch at bobl eraill ac yn addysgu disgyblion am e-ddiogelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys addysgu disgyblion am fwlio seiber, peryglon paratoi i bwrpas rhyw a gwarchod eu hunaniaeth a'u gwybodaeth bersonol ar-lein. Mae bron pob ysgol yn addysgu disgyblion am gydraddoldeb o ran rhywedd a sut i roi gwybod am bryderon. Mae pob ysgol uwchradd a llawer o ysgolion cynradd yn addysgu disgyblion am gam-drin domestig.

18 Fodd bynnag, er bod pob ysgol uwchradd yn yr arolwg yn addysgu disgyblion am drais yn erbyn menywod, mae hyn yn wir am leiafrif o ysgolion cynradd yn unig y gwaed arolwg ohonynt. Mae staff mewn ysgolion cynradd nad ydynt yn addysgu am drais yn erbyn menywod yn credu nad yw'r cynnwys yn briodol i oedran. Y dull a ddefnyddir yn yr ysgolion hyn yw ymateb i broblemau fel y maent yn codi, yn hytrach na defnyddio dull ataliol trwy eu cyflwyno i'r cwricwlwm yn rhagweithiol. Canfu adroddiad cylch gwaith Estyn, 'Gweithredu ar Fwlio' (2014), agweddau tebyg mewn lleiafrif o ysgolion o ran addysgu am fwlio homoffobig.

19 Ceir cefnogaeth gref gan bawb a gyfrannodd at yr adroddiad hwn i gynnwys addysg perthnasoedd iach yn y cwricwlwm newydd yn deillio o 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015). Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar yn y broses diwygio'r cwricwlwm i wybod i ba raddau y bydd yr uchelgeisiau hyn yn cael eu gwireddu o fewn profiadau'r maes dysgu Iechyd a Lles.

20 Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod deunyddiau addysgu a hyfforddi staff ar-lein ar gael i ysgolion ar wefan Hwb. Mae'r deunyddiau'n cynnwys gwybodaeth werthfawr am gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, e-ddiogelwch a sut gall plant ddefnyddio gwasanaethau eirioli a chyngor. Gellir mynd at y safle yn: http://hwb.wales.gov.uk/search?query=safeguarding

21 Mae tystiolaeth o arolygiadau dros y cyfnod 2012-2016 yn dangos bod bron yr holl ddisgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd yn derbyn addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh) briodol. Mewn llawer o achosion, cyflwynir hyn yn gyfan gwbl gan weithwyr iechyd proffesiynol hyfforddedig a phrofiadol. Mae lleiafrif o ysgolion hefyd yn cyflwyno ARhPh i ddisgyblion sy'n cyrraedd cyfnod y glasoed tra byddant ym Mlwyddyn 5. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn ymestyn y dysgu o'r gwersi ARhPh a gyflwynir gan weithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau arbenigol trwy gynnwys trafodaethau am berthnasoedd iach mewn sesiynau dosbarth cyfan. Mae rhai ysgolion yn sicrhau bod staff sy'n ddynion ac yn fenywod yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod yn rhoi negeseuon cadarnhaol am gydraddoldeb o ran rhywedd i ddisgyblion sy'n dysgu am berthnasoedd iach.

22 Mae lleiafrif o ysgolion yn gwahodd rhieni i gymryd rhan mewn gweithdai i edrych ar y deunyddiau a ddefnyddir yn ystod gwersi ARhPh. Mae'r ysgolion hyn yn annog rhieni i drafod y cynnwys, a rhannu eu barn am yr adnoddau. Mae hyn yn galluogi'r ysgolion hyn i gyfleu eu gwerthoedd ar gyfer ARhPh gyda rhieni yn effeithiol. Mae'n sicrhau bod rhieni'n deall pwysigrwydd gwersi ARhPh hefyd. Er enghraifft, mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Sealand yn Sir y Fflint yn ymgynghori â rhieni cyn i asiantaethau arbenigol ddod i'r ysgol i gyflwyno gwaith gyda disgyblion ar drais domestig. Gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod eu pryderon a dysgu am y fenter. O ganlyniad, ychydig iawn o rieni yn unig sy'n tynnu eu disgyblion o'r sesiynau.

23 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae addysg perthnasoedd iach wedi'i chysylltu'n agos â datblygiad llythrennedd cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff yn rhoi cymorth i ddisgyblion feithrin gwydnwch, hunan-barch a hyder. Mae'r ddarpariaeth hon yn aml yn hynod effeithiol trwy deilwra cymorth yn ofalus. Er enghraifft, mewn rhai ysgolion, caiff gwaith dosbarth cyfan ei olrhain trwy grwpiau anogaeth ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol.

24 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae Ysgol Gynradd Golwg y Cwm yn Ystradgynlais yn rhoi cymorth effeithiol i'r holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu eu llythrennedd cymdeithasol ac emosiynol.

**Astudiaeth achos 1: Ysgol Gynradd Golwg y Cwm**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yw Ysgol Golwg Y Cwm sy'n gwasanaethu ardal Penrhos ac Ystradgynlais yn awdurdod lleol Powys. Ar hyn o bryd, mae 210 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 32% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 35% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd eto uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau cryf gyda rhieni ac asiantaethau arbenigol i ddatblygu cwricwlwm sy'n darparu cymorth effeithiol ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion a rhieni sy'n newydd i'r ysgol. Mae rhieni disgyblion newydd yn cyfarfod ag athrawon fel rhan o raglen parodrwydd ysgolion i drafod disgwyliadau, ethos a gwerthoedd dymunol cyn dechrau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth anogaeth amser brecwast ac amser cinio, yn ogystal â sesiynau bob prynhawn. Mae rhieni, staff ac asiantaethau allanol yn cyfeirio disgyblion at y gwasanaeth hwn, ac fe gaiff deilliannau ar gyfer disgyblion eu mesur yn ofalus. Mae cynorthwyydd addysgu'n darparu

cymorth ar gyfer disgyblion sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth. Mae'n cysylltu ag athrawon dosbarth i sicrhau bod disgyblion yn abl yn emosiynol ac yn ymarferol i ymdrin â disgwyliadau ystafell ddosbarth. Ar ddiwedd y dydd, mae'n cysylltu â rhieni ac yn paratoi disgyblion ar gyfer eu trosglwyddo gartref.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau arbenigol i gynorthwyo teuluoedd. Er enghraifft, mae Families and Communities Together (FACT) yn cynnal gweithdai wythnosol yn yr ysgol ar gyfer rhieni, ac yn eu cyfeirio at ffynonellau cymorth priodol. Mae'r ysgol yn darparu adnoddau i gefnogi dysgu gartref ar gyfer teuluoedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen hefyd. Mae cynorthwyydd addysgu yn darparu cyngor a chymorth i rieni i'w galluogi i weithio gyda'u plant ar feysydd academaidd ac emosiynol y cwricwlwm gartref.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ethos o gynhwysiant a chymorth, ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd fel ei gilydd. Bodlonir anghenion cymdeithasol ac emosiynol penodol disgyblion trwy becyn teilwredig o ymyriadau. Mae'r holl asiantaethau partner yn dangos ymrwymiad cryf i weithio gyda'i gilydd er budd y disgyblion. Mae disgyblion a'u teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo ac maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth.

25 Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae addysg perthnasoedd iach yn rhan o'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yng nghyfnod allweddol 3 ac fe'i cyflwynir gan diwtoriaid dosbarth fel rhan o'r system diwtorial. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn darparu gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ar wahân yng nghyfnod allweddol 4. Yn yr ysgolion hyn, caiff addysg perthnasoedd iach ei hyrwyddo mewn diwrnodau thema a gwasanaethau, ac fe gaiff ei chynnwys fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r ysgolion hyn yn rhoi digon o amser i ddisgyblion ystyried yr agweddau moesol a phersonol ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu.

26 Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion uwchradd yn cynllunio gweithgareddau diddorol a rhyngweithiol sy'n atgyfnerthu negeseuon allweddol am berthnasoedd iach mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mewn rhai ysgolion, mae uwch aelod o staff yn cydlynu'r gwaith hwn ar draws adrannau a gwersi yn llwyddiannus, er enghraifft trwy arwain gwaith ar y cyd rhwng yr adrannau addysg grefyddol, Saesneg, celf a drama. Dywed disgyblion eu bod yn cofio'r negeseuon allweddol ynglŷn â pherthnasoedd iach yn well pan fyddant yn dysgu am y materion mewn ystod eang o bynciau ac yn cael cyfle i drafod pryderon.

27 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae arweinwyr yn Ysgol Uwchradd Tywyn yn cysylltu ag asiantaethau arbenigol a grwpiau drama cymunedol i ddatblygu rhaglen gynhwysfawr ar gyfer addysg perthnasoedd iach.

**Astudiaeth achos 2:  Ysgol Uwchradd Tywyn**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gyfun gymysg ddwyieithog 11-16 oed yng nghefn gwlad gorllewin Cymru yw Ysgol Uwchradd Tywyn, sydd wedi'i lleoli ar yr arfordir rhwng Abermaw ac Aberystwyth.  Mae 270 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae 11% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 30% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Daw  un pwynt naw y cant (1.9%) o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.  Yn ôl CYBLD 2016, mae 7% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu addysg gynhwysol, amrywiol i'w disgyblion, ac i annog a meithrin amgylchedd cefnogol lle mae disgyblion a staff yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn parchu safbwyntiau, hawliau a sefyllfaoedd pobl eraill.  Mae gan addysg perthnasoedd iach ran allweddol mewn codi ymwybyddiaeth disgyblion ynglŷn â sut i sefydlu, cynnal a chydnabod perthnasoedd cadarnhaol, a sut i nodi arwyddion a symptomau perthnasoedd nad ydynt yn iach.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae'r ysgol yn cyflwyno gwybodaeth bwysig am berthnasoedd iach trwy ystod eang o weithgareddau.  Mae'r rhain yn cynnwys gwersi ABCh, pynciau ar draws y cwricwlwm, diwrnodau atal yr amserlen, cynyrchiadau drama, gwasanaethau a siaradwyr allanol.

Mae'r ysgol yn cynnal gweithdai rhannu gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfer staff a rhieni, a gyflwynir gan asiantaethau arbenigol ar faterion fel e-ddiogelwch, secstio a cham-drin domestig.  Mae'r rhain yn boblogaidd a defnyddiol wrth helpu oedolion i gynorthwyo pobl ifanc.

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o gymorth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed mewn sesiynau sy'n canolbwyntio'n dda ar barchu chi eich hun a phobl eraill, gwella hunanddelwedd, a'r angen i barchu'r dewisiadau a wna pobl eraill.

Mae'r ysgol yn gweithredu system gyfeillion.  Caiff swyddogion hyfforddiant mentora cyfoedion ac fe gaiff pob swyddog ei baru â grwpiau tiwtor yn yr ysgol is, a neilltuir grŵp bach o ddisgyblion iddynt o fewn y dosbarthiadau hynny.  Mae'r swyddog yn cyfarfod â'r rheiny y maent yn eu mentora bob wythnos ac yn gwirio eu lles.  Yn aml, mae disgyblion iau yn fwy cyfforddus i godi pryderon â disgyblion hŷn na gydag aelod o staff.  Wedyn, caiff unrhyw bryder ei drosglwyddo i'r swyddog cynhwysiant neu'r cydlynydd cynnydd disgyblion neu'r uwch dîm arweinyddiaeth, yn dibynnu ar ei natur.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae hon yn ysgol gynhwysol, ble caiff anghenion grwpiau o ddisgyblion eu hystyried yn ofalus.  Mae disgyblion a staff yn deall eu rôl mewn annog a

datblygu perthnasoedd iach ac o ran helpu pobl i adnabod ac ymateb yn briodol i sefyllfaoedd ble gallent deimlo'n annifyr, yn anghyfforddus neu dan fygythiad. Ceir rhwydwaith cymorth cryf o fewn yr ysgol, sy'n rhagweithiol o ran sefydlu a chynnal perthnasoedd iach.

### Partneriaethau ag asiantaethau arbenigol

28 Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol fel Cymorth i Fenywod Cymru, BAWSO[1] a Thîm Craidd Cyswllt yr Heddlu i gyflwyno agweddau pwysig ar addysg perthnasoedd iach. Mae asiantaethau arbenigol yn darparu ystod eang o gymorth ar gyfer ysgolion, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer staff, gwersi sy'n briodol i oedran ar gyfer disgyblion, a chymorth effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n dioddef camdriniaeth. Fodd bynnag, nid yw rhai ysgolion yn rhoi digon o bwyslais ar addysgu disgyblion am gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod ac ymddygiadau rhywiol niweidiol ac nid ydynt yn cydnabod y cyfraniad defnyddiol y gall asiantaethau arbenigol ei wneud.

29 Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cysylltu'n effeithiol â phrosiect Sbectrwm Hafan Cymru. Mae'r prosiect yn darparu ystod eang o wybodaeth ac arweiniad i ysgolion ynghylch addysg perthnasoedd iach, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r prosiect yn cyflwyno hyfforddiant ar gyfer staff ysgol a gwybodaeth sy'n briodol i oedran ar gyfer disgyblion mewn gwersi cynlluniedig a gyflwynir gan athrawon profiadol. Mae'r maes llafur a ddefnyddir gan brosiect Sbectrwm yn darparu ymdriniaeth gynhwysfawr ag addysg perthnasoedd iach, gan gynnwys agweddau y mae llawer o gyrsiau mewn ysgolion yn eu hepgor. Mae'r agweddau hyn yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am effaith cam-drin domestig ar blant, trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod.

30 Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Hafan Cymru yn nodi bod sesiynau Sbectrwm wedi cael eu cyflwyno i 16,000 o blant a thros 1,300 o oedolion mewn 121 o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru rhwng Mawrth 2014 ac Ebrill 2015. Mae ysgolion yn yr arolwg sydd wedi gweithio gyda'r prosiect yn gwerthfawrogi eu mewnbwn yn fawr.

31 Pan mae ysgolion yn cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol, maent yn darparu ymdriniaeth gynhwysfawr ag addysg perthnasoedd iach, gan gynnwys gwaith sy'n briodol i oedran ar gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol. Pan fydd partneriaethau rhwng ysgolion ac asiantaethau arbenigol yn llai effeithiol, mae ysgolion yn dibynnu'n ormodol ar yr asiantaethau hyn, ac nid ydynt yn atgyfnerthu ac yn ailedrych ar negeseuon pwysig trwy'r cwricwlwm.

32 Mewn rhai ysgolion, mae cwmnïau theatr yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer ARhPh trwy gynyrchiadau ysgogol. Yn aml, mae'r perfformiadau hyn yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd o'r fath ac yn eu gweld yn werthfawr i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

[1] Gweler yr eirfa

33 Mae’r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae Ysgol Gynradd Bracla ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ymgysylltu’n effeithiol â rhieni ac asiantaethau arbenigol i ddatblygu ethos pwerus sy’n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu perthnasoedd iach.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol Gynradd Bracla**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Bracla yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 314 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae tua 20% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n cyd-fynd â’r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ôl CYBLD 2016, mae gan 35% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

**Cyd-destun a chefndir i’r arfer**

Mae’r ysgol wedi cydweithio â phob un o’r rhanddeiliaid i ddatblygu ethos pwerus sy’n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu perthnasoedd iach. Mae’r ethos hwn yn cynorthwyo’r ysgol i ddatblygu gwerthoedd craidd cryf a gwybodaeth, medrau ac agweddau ymhlith disgyblion sy’n eu galluogi i fod yn ddysgwyr gwydn a myfyriol.

**Disgrifiad o’r gweithgarwch/strategaeth**

Er Medi 2015, bu gan yr ysgol Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd i wella ac ymestyn partneriaethau â rhieni. Mae rhan o’r rôl yn ymwneud â chefnogi datblygiad perthnasoedd iach gartref ac yn yr ysgol fel ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo grwpiau unigol a thargedig o ddisgyblion trwy sesiynau galw i mewn, grwpiau anogaeth, cynllun gwerthoedd teuluol a gweithdai rheolaidd ar ddiogelwch ar y rhyngrwyd. Mae’r ysgol yn annog rhieni i fynychu sesiynau grŵp anogaeth ochr yn ochr â’u plentyn i atgyfnerthu medrau a ddysgwyd yn yr ysgol yng nghartref y teulu.

Mae’r ysgol yn cysylltu’n effeithiol ag ystod helaeth o asiantaethau allanol i gyflwyno addysg perthnasoedd iach. Mae’r asiantaethau hyn yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac yn gwella’r cwricwlwm ABCh trwy gyflwyno sesiynau penodol ar bwysigrwydd dangos parch at bobl eraill. Mae’r ysgol yn gweithio gydag asiantaethau allanol i roi gwybodaeth iddynt am anghenion penodol disgyblion a nodwyd trwy bryderon rhieni neu offeryn asesu lles yr ysgol. Mae’r offeryn hwn yn darparu gwybodaeth werthfawr am agweddau pwysig ar les, fel presenoldeb, ymddygiad ac agweddau disgyblion tuag atyn nhw eu hunain, a phobl eraill.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Caiff ffocws yr ysgol ar hyrwyddo iechyd a lles disgyblion effaith gref ar ddeilliannau disgyblion ac ymgysylltu â theuluoedd. Er enghraifft, mae

presenoldeb wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac ar gyfer 2015-2016, y gyfradd oedd 95.6%. Yn 2016, cyflawnodd holl ddisgyblion Blwyddyn 2 y deilliant disgwyliedig 5, a chyflawnodd llawer ohonynt ddeilliant 6 yn elfen datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPChLlADd) cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae partneriaethau ag ystod helaeth o asiantaethau yn cyfrannu'n gryf at ehangu ystod y cyfleoedd dysgu a'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion.

Mae perthnasoedd â theuluoedd targedig wedi gwella. Ceir cyfraddau presenoldeb cynyddol mewn digwyddiadau i rieni ac ar nosweithiau ymgynghori.

## Bodloni anghenion grwpiau sy'n agored i niwed

34 Mae llawer o ysgolion mewn ardaloedd sy'n gwasanaethu poblogaeth amrywiol sydd ag amrywiaeth eang o draddodiadau diwylliannol yn trefnu darpariaeth gref ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sydd mewn perygl o arwahanrwydd a gwahaniaethu cymdeithasol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn cysylltu'n dda ag asiantaethau arbenigol, fel BAWSO, i roi hyfforddiant a chyngor i staff ar anghenion penodol disgyblion o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd ble nad yw cymunedau'n amrywiol, nad ydynt yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i broblemau trais yn erbyn menywod. O ganlyniad, nid ydynt yn rhoi hyfforddiant priodol i staff i nodi ac ymateb i bryderon o'r natur hon, ac nid ydynt yn paratoi disgyblion yn ddigon da i fyw mewn cymdeithas amrywiol. Er enghraifft, mae tystiolaeth gan asiantaethau arbenigol yn dangos nad yw pob athro'n ymwybodol o'r ddyletswydd adrodd orfodol a osodir arnynt ynglŷn ag anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM).

35 Dywed yr holl ysgolion uwchradd a llawer o ysgolion cynradd fod ganddynt drefniadau ar waith i gynorthwyo disgyblion sydd wedi profi trais domestig neu drais rhywiol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn gwneud defnydd effeithiol o'r gwasanaeth cwnsela ysgolion, ac maent yn cyfeirio disgyblion at wasanaethau cymorth arbenigol eraill yn ôl yr angen hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cwnsela arbenigol ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol. Mae rhai ysgolion cynradd y gwnaed arolwg ohonynt yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ddarparu cwnsela a chymorth ar gyfer disgyblion.

36 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae Ysgol Gynradd Sant Woolos yng Nghasnewydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff sy'n berthnasol i anghenion eu poblogaeth sy'n ddiwylliannol amrywiol a'r modd y maent yn cefnogi anghenion disgyblion sy'n agored i niwed.

**Astudiaeth achos 4: Ysgol Gynradd Sant Woolos**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Sant Woolos yng Nghasnewydd. Mae 337 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan yr ysgol boblogaeth amrywiol sy'n cynnwys disgyblion o lawer o wledydd. Ar draws

poblogaeth yr ysgol, siaredir 43 o ieithoedd gwahanol. Mae pedwar deg naw y cant (49%) o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 38% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 38% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ffigurau hyn ymhell uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae Ysgol Gynradd Sant Woolos wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'i fod yn cael ei werthfawrogi, yn ddiogel ac yn saff. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth a pharch at bawb, ac yn sicrhau synnwyr cryf o gyfrifoldeb ac empathi at ei gilydd.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae'r ysgol yn darparu pecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff sy'n eu paratoi â'r ymwybyddiaeth a'r medrau sydd eu hangen arnynt i ddeall treftadaeth ddiwylliannol disgyblion a chefnogi eu hanghenion amrywiol. Er enghraifft, caiff staff hyfforddiant rheolaidd gan asiantaethau arbenigol, gan gynnwys seicotherapyddion plant a'r glasoed a BAWSO. Yn ychwanegol, mae staff wedi ennill cymwysterau i'w galluogi i gynnal rhaglenni ymyrraeth arloesol sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau 'cyfiawnder adferol', sy'n galluogi disgyblion i ddeall y modd y mae eu hymddygiadau'n effeithio ar bobl eraill, a sut gallant ddatrys achosion o anghytuno yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cynnal prosiectau i ddatblygu medrau cyfathrebu ac iaith rhieni ochr yn ochr â'u plant hefyd.

Mae athrawon yn cynllunio llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am berthnasoedd iach o fewn testunau ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio modelau rôl cadarnhaol o'r gymuned leol i godi dyheadau disgyblion o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynnal gweithdai gyda disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ddysgu am gydraddoldeb o ran rhywedd, ac am bwysigrwydd perthnasoedd iach a pharchus. Daw arweinwyr ffydd o'r gymuned leol i'r ysgol i gynyddu dealltwriaeth plant o'r prif fathau o ffydd a gynrychiolir yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant yn llwyddiannus i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i gefnogi disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cwnsela a therapi chwarae.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo parch a dealltwriaeth o ffydd a hunaniaethau diwylliannol niferus y disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion ag ystod eang o ieithoedd a chefndiroedd diwylliannol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Dangosant ofal ac ystyriaeth at ei gilydd ac maent yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys rhieni ac arweinwyr cymunedol. O ganlyniad, mae rhieni wedi cynyddu eu hymgysylltiad â'r ysgol.

37 Mae arweinwyr mewn lleiafrif o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o arolygon a'r cyngor ysgol i gasglu safbwyntiau disgyblion ar gynnwys y cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol. Fodd bynnag, tua hanner yr ysgolion yn unig y gwnaed arolwg ohonynt sydd â threfniadau i ddisgyblion nodi testunau yr hoffent eu trafod mewn sesiynau perthnasoedd iach.

38 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae disgyblion yn gweithredu fel llysgenhadon dros gydraddoldeb o ran rhywedd. Yn yr ysgolion hyn, rhoddir pwyslais cryf ar gyfranogiad disgyblion a phartneriaethau cryf gydag asiantaethau arbenigol sy'n hyrwyddo ymglymiad disgyblion. Mae disgyblion yn Ysgol Pen Y Dre ym Merthyr Tudful yn cynllunio gwasanaethau ar gyfer uwch staff i'w cyflwyno ar agweddau ar addysg perthnasoedd a dylanwadu ar yr hyn sy'n cael ei addysgu mewn ABCh trwy waith senedd yr ysgol. Bu grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10 yn gweithio gyda staff o sefydliad addysg uwch ar brosiect i ddatblygu dulliau creadigol o herio rhywiaeth a thrais rhywiol. Mae astudiaeth achos ar y prosiect wedi ei gynnwys yng Nghanllaw Arferion Da Llywodraeth Cymru a Cymorth i Fenywod Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).

### Darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

39 Mae tystiolaeth o adroddiadau arolygu ar gyfer y cyfnod 2010-2016 yn dangos bod y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion yn nodwedd gref ym mron yr holl ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru. Mae bron pob ysgol arbennig yn teilwra'r cwricwlwm ABCh yn unol ag anghenion a galluoedd penodol disgyblion unigol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth i ddysgu am agweddau pwysig ar ddiogelwch personol, fel sut i gyfleu'r hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi, beth yw cyffwrdd priodol a sut i adnabod oedolion y gallant ymddiried ynddynt.

40 Yn Ysgol Arbennig Pen Y Cwm, Blaenau Gwent, mae arweinwyr wedi cyflwyno dull o asesu sy'n nodi oedran a gallu datblygiadol pob disgybl i ddeall materion diogelwch personol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i fodloni anghenion datblygiadol pob disgybl. Mae hyn yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn ymwneud â diogelwch personol a pherthnasoedd iach yn briodol i anghenion unigol pob disgybl.

41 Yng ngogledd Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ariannu prosiect Jiwsi[2] i ddarparu ARhPh yn y gymuned ac mewn lleoliadau cymunedol i bobl ifanc sy'n agored i niwed o dan 25 oed. Yn 2015-2016, fe wnaethant gyflwyno ARhPh i 409 o bobl ifanc, gan gynnwys dysgwyr mewn pedwar coleg addysg bellach, 11 ysgol uwchradd, tair UCD a dwy ysgol arbennig. Mae staff y prosiect yn darparu sesiynau ar gyfer grwpiau o ddisgyblion a chymorth ar gyfer disgyblion unigol i godi eu hymwybyddiaeth am berthnasoedd ac ymddygiadau diogel a phriodol. Mae ysgolion sydd wedi gweithio gyda'r prosiect yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r cymorth arbenigol a ddarperir ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

[2] Gweler yr eirfa

### Ymglymiad teuluoedd a’r gymuned

42 Mae llawer o ysgolion, yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd sy’n ddiwylliannol amrywiol, yn meithrin partneriaethau effeithiol gyda rhieni ac arweinwyr cymunedol. Mae hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder rhwng y rhieni a’r ysgol. Mae rhai ysgolion cynradd yn yr arolwg yn cysylltu’n agos â grwpiau cymunedol i ddarparu cymorth ar gyfer rhieni o grwpiau ethnig lleiafrifol i wella eu medrau cyfathrebu. Maent yn cyfeirio rhieni at ffynonellau cymorth ac arweiniad ar gyfer ystod eang o faterion lles. Mae hyn yn helpu i wella ymgysylltiad rhieni â’r ysgol, yn lleihau tensiynau diwylliannol ac yn hyrwyddo ethos ble caiff amrywiaeth ei pharchu.

43 Cafodd astudiaeth achos ar yr agwedd hon ar addysg perthnasoedd iach o Ysgol Gynradd Maendy yng Nghasnewydd ei chynnwys yn adroddiad cylch gwaith Estyn, ‘Gweithredu ar Fwlio’ (Estyn, 2014). Gellir mynd at yr adroddiad yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Gweithredu%20ar%20fwlio%20-%20Mehefin%202014.pdf

# Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth mewn ysgolion

44 Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adroddiad hwn, mae arweinwyr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i addysg iechyd a pherthnasoedd. Maent yn sefydlu gweledigaeth glir ac ethos sy'n hyrwyddo agweddau pwysig ar iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Maent wedi ymrwymo i ddatblygu dysgwyr hyderus, diogel a hapus sy'n meddu ar y wybodaeth a'r medrau i wneud dewisiadau gwybodus.

45 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae'r ethos yn annog disgyblion i fod yn garedig, a dangos parch at bobl eraill. Bron ym mhob ysgol ble ceir ethos cryf, mae disgyblion yn egluro ethos a gwerthoedd craidd yr ysgol yn glir. Maent yn deall yr angen i barchu pobl eraill a rhoi gwybod os ydyn nhw neu rywun y maent yn ei adnabod mewn perygl o gael niwed. Mewn ysgolion hynod effeithiol, mae staff yn dangos ymddygiadau priodol ac yn dangos lefelau uchel o barch at gydweithwyr a disgyblion trwy eu gweithredoedd.

46 Mae rhai ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP: UNICEF UK, 1990) yn sylfaen ar gyfer eu hethos. Maent yn hyrwyddo dull sy'n parchu hawliau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae disgyblion yn yr ysgolion hyn yn gwybod am eu hawliau ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at barchu hawliau pobl eraill.

47 Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae arweinwyr yn nodi a hyrwyddo gwerthoedd allweddol sy'n ffurfio rhan o'u hethos. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff yn ymgorffori'r gwerthoedd hyn yn dda mewn gwasanaethau, gweithredoedd addoli a phynciau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae addysgu'n atgyfnerthu ac yn ailedrych ar y gwerthoedd hyn yn rheolaidd. Er enghraifft, yn Ysgol Gatholig Rufeinig Santes Helen yng Nghaerffili, mae staff yn hyrwyddo gwerthoedd allweddol o'r maes llafur addysg grefyddol (AGref) ar draws ystod eang o bynciau a gweithgareddau. O ganlyniad, mae disgyblion yn ailedrych ar werthoedd sy'n hyrwyddo perthnasoedd iach a pharchus bob blwyddyn i adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mae disgyblion yn siarad yn hyderus am bwysigrwydd trin pobl eraill fel y bydden nhw eu hunain yn hoffi cael eu trin.

48 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio gwasanaethau'n dda i hyrwyddo eu hethos. Mae'r ysgolion ffydd yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn yn defnyddio cyd-addoli yn hynod effeithiol i gysylltu gwerthoedd yr ysgol â'r gwerthoedd sy'n llywio arfer eu ffydd.

49 Mae ysgolion ag arweinwyr sydd wedi ymrwymo i Rwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru fel arfer yn defnyddio dulliau cadarnhaol o gyflwyno, monitro ac arfarnu addysg perthnasoedd iach. Mae'r cynllun yn asesu saith agwedd ar addysg iach, gan gynnwys datblygiad a pherthnasoedd personol. Mae'r dyfarniad yn asesu darpariaeth yr ysgol ar gyfer ARhPh, gan gynnwys addasrwydd polisïau, hyfforddiant staff, a chymorth ar gyfer disgyblion, ymglymiad teuluoedd a'r gymuned, ymglymiad disgyblion a chynnwys y cwricwlwm.

50 Yn ôl data a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddiwedd Mawrth 2015, roedd 1,317 o ysgolion cynradd a 212 o ysgolion uwchradd ledled Cymru wedi cofrestru ar y cynllun. O'r rhain, roedd 275 o ysgolion cynradd a 36 o ysgolion uwchradd yn gweithio tuag at y Dyfarniad Ansawdd Cenedlaethol. Rhoddir y dyfarniad hwn i ysgolion sy'n gallu dangos dull ysgol gyfan ar gyfer pob maes iechyd a restrir yn y Cynllun Ysgolion Iach: mae cant a deg o ysgolion cynradd, un deg saith o ysgolion uwchradd a phum ysgol arbennig wedi derbyn y Dyfarniad.

51 Mewn llawer o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, caiff y ddarpariaeth ar gyfer ABCh ei chynnwys yng nghylch gweithgareddau sicrhau ansawdd yr ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn golygu bod ABCh yn cael ei chynnwys mewn arsylwadau gwersi ac wrth graffu ar ddogfennau cynllunio athrawon a gwaith disgyblion. Mae tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn adrodd ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer ABCh wrth y corff llywodraethol.

52 Bron ym mhob ysgol gynradd, athrawon dosbarth sy'n cynllunio ar gyfer ABCh, a'i chyflwyno. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae tiwtoriaid dosbarth yn cyflwyno cynnwys perthnasoedd iach ABCh. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd, mae gormod o amrywiad yn ansawdd y cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg perthnasoedd iach. Pan nad yw staff ysgolion cynradd neu uwchradd wedi cael hyfforddiant arbenigol i gyflwyno testunau fel anffurfio organau cenhedlu benywod a thrais ar sail anrhydedd, nid ymdrinnir â'r agweddau pwysig hyn fel arfer.

53 Mae gan rai ysgolion yn yr arolwg drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob un o'r staff sy'n cyflwyno addysg perthnasoedd iach yn wybodus a hyderus am gynnwys y pwnc. Er enghraifft, yn Ysgol Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseph yn Wrecsam, mae disgyblion yn symud rhwng staff fel rhan o system garwsél. O ganlyniad, mae staff yn cyflwyno agweddau ar y cwrs ABCh y maent yn hyderus â nhw.

54 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd yn darparu rhaglen o ansawdd uchel ar addysg iechyd a pherthnasoedd. Mae'r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth yn berthnasol i anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rheiny o grwpiau sy'n agored i niwed.

**Astudiaeth achos 5: Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Uwchradd Cathays wedi'i lleoli ger canol dinas Caerdydd ac mae'n gwasanaethu ardaloedd Cathays a'r Rhath. Fodd bynnag, daw 61% o ddisgyblion o rannau eraill o Gaerdydd; ac mae 33% o ddisgyblion yn byw yn wardiau mwy difreintiedig y ddinas. Mae tua 33% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae tua 830 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 80% o ddisgyblion o gefndiroedd pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig. Ar hyn o bryd, siaredir 64 o ieithoedd gwahanol fel mamiaith yng nghartrefi'r disgyblion. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw 69% o ddisgyblion. Mae lefel caffael Saesneg tua 39% o ddisgyblion yn llai na chymwys.

Nododd yr ysgol fod angen adolygu cynnwys ei haddysg perthnasoedd iach i fodloni anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae Ysgol Uwchradd Cathays wedi ymrwymo i greu amgylchedd gweithio cynhwysol, diogel a chadarnhaol. Mae'r ysgol wedi buddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu ei haddysg perthnasoedd iach. Caiff darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg perthnasoedd iach ei theilwra yn unol ag anghenion gwahanol grwpiau o fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sydd mewn perygl.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae tîm cynhwysiant a lles yr ysgol yn nodi disgyblion sydd mewn perygl ac yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn derbyn ymyrraeth a chymorth ffocysedig. Mae hyn yn cynnwys gwersi ychwanegol ar sut i gadw'n ddiogel, cymorth cwnsela, monitro absenoldeb yn agos, a chyfathrebu cynyddol â rhieni. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i rieni ymweld â'r ysgol i ddysgu sut i gadw eu plant yn ddiogel.

Mae gan arweinwyr bartneriaethau strategol effeithiol gydag asiantaethau arbenigol fel Sbectrwm, BAWSO, Barnardo's a'r NSPCC. Mae'r sefydliadau hyn yn darparu hyfforddiant staff ac yn cyflwyno sesiynau ar berthnasoedd iach fel rhan o'r rhaglen ABCh a chymorth ffocysedig ychwanegol ar gyfer grwpiau targedig. Er enghraifft, mae Sbectrwm wedi cyflwyno gwersi i'r holl ddisgyblion ar berthnasoedd iach ym Mlynyddoedd 9 a 10 a chyflwynir prosiect 'Pants' yr NSPCC i ddisgyblion targedig i hyrwyddo parch iddyn nhw eu hunain a phobl eraill yng nghyd-destun rhyw a pherthnasoedd.

Mae Barnardo's a BAWSO wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer yr holl staff, gyda hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff allweddol, fel penaethiaid blwyddyn.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd ffurfio perthnasoedd parchus a chadarnhaol. Maent yn hyderus wrth siarad am berthnasoedd iach mewn gwersi a gyda staff.

Mae'r ysgol yn nodi'r disgyblion hynny sydd â mwy o risg ac yn eu cynorthwyo i wneud dewisiadau iach.

Caiff staff eu hyfforddi'n dda i nodi disgyblion a risg ac maent yn gwybod pa gamau i'w cymryd wrth roi gwybod am y pryderon hyn.

Mae rhieni disgyblion sy'n agored i niwed yn gwybod at bwy i droi am gymorth os bydd ganddynt bryderon am eu plentyn.

## Hyfforddiant staff

55 Mae tystiolaeth o adroddiadau arolygu ysgolion ar gyfer y cyfnod 2010-2016 yn dangos bod gan bron pob ysgol drefniadau priodol i hyfforddi staff am faterion diogelu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r hyfforddiant hwn yn rhan o'r broses ymsefydlu ar gyfer pob un o'r staff ac ailedrychir ar hyn yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am newidiadau i ddeddfwriaeth ac arweiniad statudol. Mae uwch unigolion dynodedig mewn ysgolion yn cael hyfforddiant ychwanegol priodol i gefnogi eu gwaith gyda thimau amlasiantaethol wrth reoli gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant.

56 Bron ym mhob un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae'r uwch unigolyn dynodedig ar gyfer diogelu wedi cael hyfforddiant ychwanegol i'w wneud yn ymwybodol o drais domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sydd â threfniadau effeithiol i rannu'r hyfforddiant hwn gyda staff eraill.

57 Yn gyffredinol, mae achosion o gam-fanteisio ar blant sydd wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau wedi codi ymwybyddiaeth arweinwyr ysgol am yr agwedd hon ar ddiogelu disgyblion. Mae arweinwyr mewn lleiafrif o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt wedi cymryd camau priodol i ddiogelu disgyblion sydd mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol a thrais rhywiol. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y disgyblion hyn yn yr ysgol a gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni, arweinwyr cymunedol, y gwasanaeth lles addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Mae uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn wedi cael hyfforddiant priodol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (TEMCDThRh).

58 Tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn unig oedd yn ymwybodol o arweiniad statudol Llywodraeth Cymru, 'Y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol' (Llywodraeth Cymru, 2016a). Mae staff mewn ychydig iawn o ysgolion yn unig wedi cael yr hyfforddiant. Er mwyn mynd at yr hyfforddiant ar-lein, rhaid i staff fewngofnodi gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost awdurdod lleol. Mae hyn yn atal staff o ysgolion yn y sector annibynnol rhag mynd at yr hyfforddiant. Adeg yr arolwg, roedd yr hyfforddiant yn ei gyfnod peilot, ac roedd ar gael i ysgolion mewn ardaloedd sy'n cael eu cwmpasu gan ddau yn unig o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.

## Effaith arweiniad Llywodraeth Cymru

59 Ychydig iawn o'r penaethiaid y gwnaed arolwg ohonynt yn unig sy'n ymwybodol o Ganllaw Arferion Da Cymorth i Fenywod Cymru a Llywodraeth Cymru: 'Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2015). O ganlyniad, ychydig iawn o ysgolion yn unig sydd wedi rhoi dull ysgol gyfan ar waith i atal y problemau hyn.

60 Nid yw'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn ymwybodol o'r pecynnau canllawiau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyno addysg perthnasoedd iach a rhoi'r arweiniad arferion da ar waith.

61 Ychydig iawn o gyrff llywodraethol yn unig sy'n ymwybodol o'r canllaw ymarferol ar gyfer llywodraethwyr, sef 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Llywodraeth Cymru, 2016a). Yn yr ychydig iawn o ysgolion ble mae llywodraethwyr wedi ymateb i'r arweiniad hwn, maent wedi defnyddio'r cwestiynau hunanfyfyrio defnyddiol yn yr atodiad i'w helpu i fonitro eu polisïau a'u trefniadau ar gyfer cyflwyno addysg perthnasoedd iach. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y gwaith hwn.

62 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre High ym Merthyr Tudful wedi defnyddio arweiniad Llywodraeth Cymru i roi dull ysgol gyfan ar waith ar gyfer addysg perthnasoedd iach. Mae'r strategaeth a fabwysiadwyd gan yr ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhywedd ac mae'n cynnwys ffocws clir ar atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Astudiaeth achos 6: Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol cyfrwng Saesneg 11-16 a gynhelir gan awdurdod lleol Merthyr Tudful yw Ysgol Pen-Y-Dre. Mae 549 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 33% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys Ystâd y Gurnos, yn ogystal â nifer o gymunedau'r cymoedd ar ymylon Bannau Brycheiniog. Daw disgyblion o chwe ysgol gynradd bartner yn bennaf. Mae saith deg y cant o ddisgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae gan ryw 49% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre wedi ymrwymo i les disgyblion, staff a'r gymuned leol. Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, yn cydnabod ac yn deall y rôl bwysig sydd gan addysg o ran hyrwyddo perthnasoedd iach a lleihau cam-drin domestig mewn cymdeithas. Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau cryf gydag asiantaethau arbenigol, sy'n cefnogi'r ysgol i roi naw elfen y dull addysg gyfan ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar waith, fel y mae wedi'i amlinellu yn arweiniad Llywodraeth Cymru.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae gan uwch arweinydd gyfrifoldeb am gynllunio a monitro camau'r ysgol i roi naw elfen y dull ysgol gyfan ar waith. Mae'n cydlynu camau'r ysgol yn erbyn targedau a amlinellir mewn cynllun datblygu manwl ar gyfer addysg perthnasoedd iach. Gosodir camau gweithredu ar gyfer staff mewn adrannau ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo perthnasoedd iach trwy ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys gwasanaethau, diwrnodau thema, ei gwefan, gweithdai rhieni a thrwy wersi ar draws y cwricwlwm.  Mae athrawon mewn ystod eang o bynciau yn cyflwyno addysg perthnasoedd iach i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn i sicrhau eu bod yn ailedrych ar negeseuon pwysig yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth o faterion cysylltiedig, a sut y cânt eu cyflwyno.  Mae grwpiau dosbarth yn cynllunio gwasanaethau i uwch staff eu cyflwyno bob wythnos.  Mae Senedd y Myfyrwyr yn cyflwyno eu safbwyntiau i'r uwch dîm arweinyddiaeth, ac maent yn mynd ati i hyrwyddo perthnasoedd iach ar draws yr ysgol ac yn y gymuned leol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae'r ysgol wedi datblygu ethos cynhwysol yn llwyddiannus ble mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd perthnasoedd iach ac yn parchu cydraddoldeb ac amrywiaeth.  Mae gan ddisgyblion yr hyder i leisio pryderon ac maent yn deall pwysigrwydd herio trais a cham-drin rhywiol.

## Deilliannau disgyblion

63 Mae tystiolaeth o holiaduron dysgwyr cyn-arolygiad Estyn ar gyfer y cyfnod 2010–2016 yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion ledled Cymru yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni.

64 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod o strategaethau i helpu disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at fod yn iach a diogel.

65 Mae ysgolion sydd â rhaglenni ABCh effeithiol yn addysgu disgyblion yn dda fel eu bod yn deall problemau fel pwysau gan gyfoedion, ymddygiad gorfodol, cam-drin domestig a bwlio homoffobig. Mae hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau perthnasol a phenderfyniadau synhwyrol wrth ddelio â'r materion hyn.

66 Pan gaiff ARhPh ei chyflwyno'n dda, mae disgyblion yn datblygu hyder wrth feddwl a siarad am ryw a pherthnasoedd. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth a hunan-barch disgyblion wrth ddelio â sefyllfaoedd anodd a gwneud dewisiadau pwysig.

67 Mewn ysgolion sydd ag ethos ble mae disgyblion yn parchu hawliau pobl eraill ac yn deall pwysigrwydd amrywiaeth a chydraddoldeb, mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at ddigwyddiadau cymunedol ehangach ac yn datblygu synnwyr gwell o gyfrifoldeb cymdeithasol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o anghenion a hawliau pobl eraill yn eu cymuned leol ac yn dod yn ddinasyddion gweithgar a gwybodus.

68 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae disgyblion yn Ysgol Plasmawr yng Nghaerdydd yn cymryd yr awenau wrth hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhywedd yn eu hysgol ac yn y gymuned ehangach fel ei gilydd.

**Astudiaeth achos 7: Ysgol Plasmawr**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr a gynhelir gan awdurdod lleol Caerdydd, ar gyfer bechgyn a merched rhwng 11 ac 19 oed. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn y Tyllgoed yng Nghaerdydd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ochr orllewinol y ddinas ac mae ganddi ddalgylch eang iawn. Mae 1,002 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyfranogiad disgyblion, ac mae'n annog disgyblion i ddatblygu eu medrau arwain trwy drefnu ystod eang o gynadleddau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd iach a pharch at bobl eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cymorth effeithiol gan gyfoedion i gyfoedion hefyd trwy hyfforddi disgyblion fel mentoriaid ar gyfer datblygu medrau academaidd a chymdeithasol.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae ffyrdd effeithiol i ddisgyblion ar draws yr ysgol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol.  Er enghraifft, mae gwasanaethau a chynadleddau pob oed yn canolbwyntio ar faterion pwysig fel stereoteipio rhywedd yn y cyfryngau torfol, chwaraeon, cynhyrchu teganau a byd gwaith.  Mae disgyblion yn elwa ar fod yn rhan o grwpiau ymgyrchu fel 'Merched Mentrus' i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a pherthnasoedd iach, 'Bechgyn Bonheddig' i ddatblygu medrau cymdeithasol, 'Digon' i fynd i'r afael ag agweddau homoffobig, a 'Balch' i ddathlu cymuned amlddiwylliannol yr ysgol.

Menter sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhywedd yng nghymuned yr ysgol yw 'NewidFfem'.  Mae wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth am faterion rhywedd a wynebir gan ddisgyblion ac i newid agweddau disgyblion ac athrawon tuag at ffeministiaeth a chydraddoldeb o ran rhywedd.  Mae'r grŵp yn gyfrifol am drefnu cynadleddau misol lle caiff pob disgybl gyfle i drafod materion cyfoes ynglŷn â chydraddoldeb o ran rhywedd.  Mae'r grŵp yn herio agweddau ar sail rhywedd traddodiadol tuag at yrfaoedd.  Mae aelodau o grŵp NewidFfem wedi rhannu eu gwaith yn llwyddiannus gyda disgyblion o ysgolion eraill trwy fod yn rhan o brosiect AGENDA.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae disgyblion yn datblygu fel dinasyddion gweithgar a gwybodus.  Mae ganddynt y medrau a'r hyder i herio anghydraddoldeb ac agweddau amharchus nad ydynt yn iach.  Maent yn gweithredu fel llysgenhadon addysg perthnasoedd iach trwy weithio gyda disgyblion iau mewn ysgolion cynradd lleol i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb o ran rhywedd.  Mae cyfranogiad disgyblion yng nghymuned yr ysgol yn gynhwysfawr.  Mae'r ffordd y mae disgyblion yn arwain grwpiau mentora cyfoes ac arloesol yn gryfder sylweddol yn yr ysgol.

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae’r canfyddiadau a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio’r canlynol:

- tystiolaeth o ganlyniadau arolygu
- tystiolaeth o holiadur arolwg
- ymweliadau ag ysgolion
- cyfweliadau â chynrychiolwyr o asiantaethau arbenigol

Nodwyd bod y tair ysgol ar ddeg a ddewiswyd ar gyfer ymweliadau yn dangos arfer gref mewn agweddau ar addysg perthnasoedd iach o ganlyniad i arolygiadau Estyn. Yn yr ymweliadau hyn, bu arolygwyr:

- yn adolygu cynlluniau a dogfennau’r cwricwlwm
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion
- yn cynnal trafodaethau gydag arweinwyr canol ac uwch arweinwyr sy’n gyfrifol am ABCh

Hefyd, darparwyd gwybodaeth gan dair ysgol gynradd ar ddeg, wyth ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig arall trwy holiadur arolwg ar-lein. Mae’r sampl yn ystyried lleoliad daearyddol, cefndir economaidd-gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol.

Nodwyd bod gan asiantaethau arbenigol yn adroddiadau arolygu Estyn bartneriaethau strategol ag ysgolion o ran cyflwyno addysg perthnasoedd iach.

Dyma’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r arolwg:

- Ysgol Gynradd Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint
- Ysgol Gynradd Gymunedol Dinas Powys, Bro Morgannwg
- Ysgol Gynradd Gymunedol Maendy, Casnewydd
- Ysgol Arbennig Pen Y Cwm, Blaenau Gwent
- Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Santes Helen, Caerffili
- Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseph, Wrecsam
- Ysgol Gynradd St Woolos, Casnewydd
- Ysgol Golwg Y Cwm, Powys
- Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd
- Ysgol Llanddulas, Conwy
- Ysgol Pen-Y-Dre, Merthyr Tudful
- Ysgol Uwchradd Tywyn, Gwynedd

Darparwyd tystiolaeth gan Ysgol Gynradd Gymunedol Sealand, Sir y Fflint dros y ffôn.

Dyma'r asiantaethau arbenigol a gyfrannodd at yr adroddiad:

- Prosiect Dyfodol Gwell Barnardo's, Caerdydd
- BAWSO, Caerdydd
- Prosiect Sbectrwm Hafan Cymru, Caerdydd
- Llywodraethwyr Cymru
- Gwent VAWDA
- Rhaglen Cyswllt Ysgolion Heddlu Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru
- Ymgynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## Atodiad 2: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)** | Rhaglenni i gynorthwyo dysgwyr i fod yn effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol trwy ddarparu profiadau dysgu ble gallant ddatblygu a chymhwyso medrau, archwilio agweddau a gwerthoedd personol, a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol. |
| **Addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh)** | Ystod y dysgu a'r cymorth y mae ysgolion yn eu darparu o ran yr agweddau emosiynol, corfforol a chymdeithasol ar berthnasoedd, iechyd rhywiol a lles, i alluogi plant a phobl ifanc i ddeall newidiadau i'r corff, rheoli teimladau rhywiol a mwynhau perthnasoedd diogel, cyfrifol a hapus. |
| **BAWSO** | Darparwr Cymru gyfan yw BAWSO, sy'n cyflwyno gwasanaethau arbenigol i bobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), priodas dan orfod, masnachu pobl/caethwasiaeth a phuteindra. |
| **Bwlio seiber** | Defnyddio cyfathrebu electronig i fwlio rhywun, yn nodweddiadol trwy anfon negeseuon o natur fychanol neu fygythiol |
| **Cam-drin domestig** | Camdriniaeth ble mae'r dioddefwr wedi bod yn gysylltiedig â'r sawl sy'n ei gam-drin. Mae camdriniaeth yn golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol. |
| **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** | Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n rhoi set gynhwysfawr o hawliau i'r holl blant a phobl ifanc (17 oed ac yn iau). Llofnododd y DU y confensiwn ar 19 Ebrill 1990 a'i gadarnhau ar 16 Rhagfyr 1991, a daeth i rym ar 15 Ionawr 1992. |
| **CYBLD** | Gwybodaeth y cyfrifiad a gesglir gan Lywodraeth Cymru bob mis Ionawr o bob ysgol a gynhelir. Defnyddir y wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid yn cael ei dargedu'n gywir, a datblygu a monitro polisïau. |
| **Hwb** | Mae Hwb (hwb.wales.gov.uk) yn elfen allweddol o raglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol Llywodraeth Cymru. Mae Hwb yn sicrhau bod pob ysgol a gynhelir yng Nghymru yn gallu manteisio'n gyson ar ystod eang o offer dysgu digidol ac adnoddau dwyieithog o ansawdd uchel sy'n gallu cefnogi trawsnewid arferion ystafell ddosbarth. |

| | |
|---|---|
| **Jiwsi** | Gwasanaeth addysg a hyfforddiant iechyd rhywiol y Gymdeithas Cynllunio Teulu yw Jiwsi, a ariennir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Mae'n cyflwyno addysg iechyd rhywiol a pherthnasoedd (ARhPh) i grwpiau o bobl ifanc sy'n agored i niwed mewn lleoliadau addysg a chymunedol, ac mae'n darparu rhaglenni hyfforddi ARhPh i staff BIPBC ledled Gogledd Cymru. |
| **Sbectrwm** | Prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Sbectrwm i godi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig a phroblemau cysylltiedig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru. |
| **Trais rhywiol** | Camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rywiol. |
| **Trais yn erbyn menywod a merched** | Trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a benyw yw'r dioddefwr |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Comisiynydd Plant Cymru (2004) *Clywch: Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru o honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgol.* Caerdydd: Comisiynydd Plant Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Clywch.pdf [Defnyddiwyd 21 Mawrth 2017] (Saesneg yn unig)

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 6 Gorffennaf 2016]

Estyn, (2007) *Arweiniad rhyw a pherthynas.* Caerdydd. Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/arweiniad-rhyw-pherthynas-mawrth-2007 [Defnyddiwyd 19 Rhagfyr 2016]

Estyn, (2014) *Gweithredu ar fwlio.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/gweithredu-ar-fwlio-mehefin-2014 [Defnyddiwyd 26 Tachwedd 2016]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) *Cam-drin Domestig yng Nghymru*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/cc3_domestic_abuse_inquiry_report_-_e_-_final.pdf%20-%2002122008/cc3_domestic_abuse_inquiry_report_-_e_-_final-English.pdf [Defnyddiwyd 19 Tachwedd 2016] (Saesneg yn unig)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2013) *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/pdfs/anaw_20130001_en.pdf [Defnyddiwyd 20 Ebrill 2017] (Saesneg yn unig)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/pdfs/anaw_20150003_en.pdf [Defnyddiwyd 6 Gorffennaf 2016] (Saesneg yn unig)

Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2011) *Adolygiad o waith ataliol mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yng Nghymru i fynd i'r afael â thrais teuluol*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/caecd/research/110315schoolbasedworktoaddressdomesticabusecy.pdf [Defnyddiwyd 6 Gorffennaf 2016]

UNICEF UK (1990) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.* Llundain: UNICEF. [Ar-lein]. Ar gael o: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_PRESS200910web.pdf?_ga=2.204033616.1521843694.1493365823-2111545197.1489681381 [Defnyddiwyd 5 Mai 2016] (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a) *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru.* Caerdydd.  Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130425-personal-and-social-education-framework-cy.pdf [Defnyddiwyd 19 Tachwedd 2016]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) *Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru: Strategaeth Genedlaethol.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein] Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/543/1/counsellingstrategy-e.pdf%3Flang%3Den [Defnyddiwyd 21 Mawrth 2017]  (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2004) *Gweithredu'r Hawliau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.assembly.wales/Committee%20Documents/HSS(2)-02-04%20Paper%201%20%20Children%20and%20Young%20People%20Rights%20to%20Action-04022004-14558/n0000000000000000000000000016990-English.pdf [Defnyddiwyd 22 Rhagfyr 2016]  (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2010) *Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130425-sex-and-relationships-education-in-schools-cy.pdf [Defnyddiwyd 22 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2015) *Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-cy.pdf [Defnyddiwyd 6 Gorffennaf 2016]

Llywodraeth Cymru (2016a) *Y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: canllawiau statudol o dan adran 15 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/160317-national-training-framework-guidance-cy.pdf [Defnyddiwyd 6 Gorffennaf 2016]

Llywodraeth Cymru (2016b) *Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Canllaw ymarferol ar gyfer llywodraethwyr ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/livefearfree/160316-governor-guide-cy.pdf [Defnyddiwyd 6 Gorffennaf 2016]

Llywodraeth Cymru (2016c) *Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, 2014/15 (YSTADEGAU ARBROFOL).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160218-counselling-children-and-young-people-experimental-statistics-2014-15-en.pdf [Defnyddiwyd 12 Ebrill 2017]  (Saesneg yn unig)